## Polisi Gyrfaoedd Moesegol - Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Aberystwyth

Gwasanaeth gyrfaoedd canolog y Brifysgol yw Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Aberystwyth ac mae wedi ymrwymo i gynnal a hyrwyddo gyrfaoedd a gweithgareddau recriwtio moesegol yn unol â

- Chynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth
- Polisi Cynaliadwyedd 2023
- Strategaeth tuag at Garbon Sero Net 2030.

Rydym hefyd yn cadw at yr egwyddor graidd a'r safonau ymarfer proffesiynol a nodir yng nghod moeseg AGCAS er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni ystod lawn o ddyheadau ein myfyrwyr a'n graddedigion.  Wrth wneud hynny, rydym yn cadw ein safbwynt diduedd, sy'n rhydd o ragfarn, gan alluogi myfyrwyr unigol i deimlo bod ganddynt rym a'r gallu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gyrfa yn y dyfodol.

Mae gennym hefyd set o nodau craidd ar gyfer gyrfaoedd moesegol:

### Nod 1)

Bellach, bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn gwneud ymdrech i beidio â chydweithio na chynnal perthynas gyda'r diwydiannau / cwmnïau canlynol:

- Cwmnïau tanwydd ffosil a restrir yn y Carbon Underground 200, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn benodol â glo a thywod tar.
- Cwmnïau Mwyngloddio – y 100 cwmni glo ar restr y Carbon Underground 200 a'r 50 o gwmnïau mwyngloddio ar y rhestr Transition Mineral Mining 50
- Cwmnïau tybaco a'r rhai sy'n cynhyrchu cynhyrchion yn seiliedig ar dybaco.

Fodd bynnag, ar brydiau gall cyflogwyr trydydd parti uwchlwytho rolau cysylltiedig i ffrwd swyddi gwag y Gwasanaeth Gyrfaoedd. Ni fyddwn yn uwchlwytho a/neu byddwn yn gwrthod cymeradwyo unrhyw un o'r rolau hyn lle mae angen cymeradwyaeth â llaw. Bydd myfyrwyr yn dal i allu trafod y rolau hyn yn ystod cyfweliadau cyfarwyddyd â chynghorwyr gyrfaoedd, lle mae didueddrwydd yn cael ei gontractio.

### Nod 2)

Rydym yn mynd ati i hyrwyddo rolau sy'n gwella cynaliadwyedd.   Ein nod hefyd yw sicrhau bod 50% o'n hymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â swyddi yn hyrwyddo rolau, digwyddiadau a chyfleoedd eraill a gynigir gan sefydliadau sy'n canolbwyntio ar greu cymunedau a gyrfaoedd gwyrdd.

### Nod 3)

Mae'r holl gyfleoedd sy'n dod yn uniongyrchol drwy ein prif ddarparwr trydydd parti o swyddi gwag, 'Target Connect', wedi cael eu sgrinio a'u cadarnhau fel rhai dilys.  Mae cyfleoedd uniongyrchol yn cael eu gwirio â llaw o ran eu dilysrwydd. Ochr yn ochr â hyn mae ein ffrwd uniongyrchol yn cael ei gwirio'n rheolaidd er mwyn hidlo'r cwmnïau sydd wedi'u heithrio. Rydym hefyd yn gwirio amgylcheddau gwaith i sicrhau eu bod yn ddiogel i'n myfyrwyr a'n graddedigion a bod cyflogwyr yn cadw at y gyfraith cyflogaeth bresennol.  Mae gennym gytundeb tair rhan ar gyfer lleoliadau allanol ABERymlaen.

### Nod 4)

Rydym yn hyrwyddo arfer gorau mewn cyflogaeth drwy sicrhau bod yr holl interniaethau a gefnogir yn ganolog (ABERymlaen) yn cael eu hariannu a'u talu'n llawn ar gyfradd y Cyflog

Byw Gwirioneddol. Nid yw cyfleoedd di-dâl yn cael eu hyrwyddo oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag deddfwriaeth yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Nod 5)

Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd PA wedi ymrwymo i fynd ati i ariannu gweithgareddau sy'n ymwneud â chyflogadwyedd ac sy'n cefnogi cynaliadwyedd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Er enghraifft, mae ein digwyddiad blynyddol, yr ŴylGyrfaoedd, yn neilltuo diwrnod llawn i gynaliadwyedd gan gynnwys her a phanel o'r sector gwyrdd a sesiwn holi ac ateb.

Rydym hefyd yn bartneriaid allweddol yn y broses o ddylunio a chyflwyno Cynhadledd Cynaliadwyedd flynyddol Myfyrwyr/Staff Prifysgol Aberystwyth a gynhelir yn yr Hydref, gan sicrhau bod ystod o gyflogwyr o'r sector yn cael eu cynrychioli.

Rydym yn cefnogi interniaethau i fyfyrwyr AberYmlaen sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.

Nod 6)

Rydym wedi ymrwymo i agenda codi'r gwastad gan sicrhau, trwy ein menter Cymorth i Baratoi am Yrfa, bod cefnogaeth arbennig i weithgareddau ehangu cyfranogiad er mwyn cydnabod poblogaeth ein myfyrwyr. Yn ogystal, rydym hefyd yn mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd a gynigir gan sefydliadau fel Leonard Cheshire/Change 100, Creative Access, Employ Autism, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, 10,000 Interns Foundation a Sanctuary Graduates.

Nod 6)

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau mai nwyddau cynaliadwy fydd gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd ar gyfer ein marchnadoedd targed mewn gweithgareddau hyrwyddo, er enghraifft nwyddau wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu; a gofynnwn i drydydd partïon sicrhau bod eu nwyddau ar gyfer digwyddiadau ar y campws hefyd yn gynaliadwy lle bynnag y bo modd.

Nod 7)

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn gweithredu swyddfa ddi-bapur, gan argraffu pryd bynnag y bo modd ar bapur wedi'i ailgylchu yn unig a hynny pan mae gan fyfyrwyr ofyniad addasu rhesymol, os papur yw'r dull gorau o hysbysebu gwasanaeth hanfodol i fyfyrwyr neu os oes cais wedi'i wneud am dystiolaeth ddogfennol.

Nod 8)

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd, sy'n cael ei redeg yn annibynnol gan y brifysgol ac nid fel rhan o unrhyw wasanaeth gyrfaoedd cyfunol, wedi ymrwymo i dryloywder er mwyn hyrwyddo gwelliant parhaus trwy adborth. Mae manylion cyswllt llawn staff y Gwasanaeth Gyrfaoedd, gan gynnwys enw, rôl a chyfeiriad e-bost i'w gweld ac yn hawdd eu cael ar dudalennau gwe'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. I gael adborth ar y polisi hwn, cysylltwch â Bev Herring, Pennaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, ar 01970 622378 neu bch@aber.ac.uk

Ar hyn o bryd rydym yn cydweithio â'r darparwyr cyflogwyr trydydd parti canlynol i gynnig gwasanaethau: Target Connect

Llofnodwyd ym mis Mai 2024 gan Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran gyda chyfrifoldeb ar lefel y Weithrediaeth am Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.  Adolygir bob blwyddyn.